

Cyfeirnod: BIP 166
Rhif y Fersiwn: 4

Dyddiad Adolygu Nesaf: 25 Medi 2027
Cyfeirnod Blaenorol yr Ymddiriedolaeth/BILI: T/172

Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol

Cyflwyniad a Nod

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) yn cydnabod pwysigrwydd gwyliau blynyddol o ran gwella ansawdd bywyd gwaith ein gweithwyr a chefnogi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae gwyliau blynyddol yn rhoi cyfle i weithwyr ymlacio ac adfer o amgylchedd sy'n gallu bod yn llawn straen lle maent yn gweithio'n galed. Diben gwyliau blynyddol yw cael seibiannau ystyrlon o'r gwaith yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal, mae rheolaeth dda o wyliau blynyddol gan y gweithiwr a'r rheolwr yn hanfodol i iechyd a diogelwch y gweithiwr a'r sefydliad. Y nod yw osgoi croniadau neu ddiffygion diangen, a allai arwain at ordaliadau neu dorri'r Rheoliadau Amser Gwaith, Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG a/neu'r polisi hwn.

Ein nod gyda'r weithdrefn hon yw darparu dull unffurf a theg o gyfrifo hawliau gwyliau blynyddol a gwyliau banc wrth gydnabod bod angen cynnal gwasanaeth cyson er mwyn gallu darparu gwasanaeth effeithiol a diogel i'n cleifion.

Fel BIP, mae gennym ddyletswydd gofal i'n gweithwyr ac rydym am hyrwyddo gweithle lle mae ein staff yn cael eu cefnogi gyda thosturi, er mwyn sicrhau bod eu profiad o waith yn eu galluogi i fod yn iachach, yn hapusach yn y gwaith, ac yn gallu bod ar eu gorau.

Amcanion

- Cefnogi cydbwysedd cadarnhaol ac iach rhwng bywyd a gwaith i staff
- Sicrhau bod anghenion gwasanaethau yn cael eu cydbwysu ag anghenion unigol
- Rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i weithwyr a rheolwyr am eu hawliau mewn perthynas â gwyliau blynyddol
- Sicrhau bod darpariaethau gwyliau blynyddol yn cael eu gweithredu'n deg, yn gyson ac yn effeithiol
- Sicrhau bod gweithwyr yn cael seibiannau ystyrlon rheolaidd drwy gydol y flwyddyn wyliau

Cwmpas

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl staff a gyflogir gan y BIP ar Delerau ac Amodau Agenda ar gyfer Newid, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr.

Dylai ymgynghorwyr a Staff Meddygol Gradd Gyrfa gyfeirio at y [Polisi Gwyliau Blynyddol ar gyfer Staff Meddygol a Deintyddol Gradd Gyrfa](#). Dylai meddygon mewn swyddi hyfforddiant ar

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	2 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

leoliad o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) gyfeirio at bolisïau priodol AaGIC ynghylch hawliau gwyliau blynyddol.

Dogfennau i'w darllen ar y cyd â'r weithdrefn hon

[Polisi Gweithlu Addasadwy](#)
[Polisi Gweithio'n Hyblyg GIG Cymru](#)
[Gweithdrefnau Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth](#) ac
[Absenoldeb Rhiant a Rennir](#)
[Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru](#)
[Polisi Absenoldeb Arbennig - Cymru Gyfan](#)
[Polisi Hyfforddi ac Ymfyddino'r Lluoedd Wrth Gefn](#)
[Polisi Tandaliadau/Gordaliadau'r Gyflogres](#)
[Cytundeb Partneriaeth a Chydnabod](#)
[Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol](#)
[Gweithdrefn Absenoldeb Anawdurdodedig](#)
[Llawlyfr Telerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG](#)
[Pecyn Cymorth Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol](#)
[\(sharepoint.com\)](#)

Protocol GIG Cymru ar gyfer Cydnabod Gwasanaeth Parhaus



NHS Wales Protocol
for Recognising Cor

Swyddog Gweithredol neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Awdur(on)

Rheolwr Gwasanaethau Pobl
UNSAIN, Prif Gynrychiolydd ar gyfer Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi bod, sicrhewch mai'r fersiwn yr ydych yn ei defnyddio yw'r un fwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu'r [Gyfarwyddiaeth Llywodraethu](#).

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau

Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo'r Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o Ddiwygiadau
1	29/01/2013	08/03/2013	Ailfformatiwyd yn arddull y BIP. Mae'n disodli dogfen Ymddiriedolaeth cyfeirnod 172

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	3 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

2			<p>Mae'n disodli'r Canllawiau Gwyliau Blynyddol blaenorol.</p> <p>Diweddarwyd prosesau i adlewyrchu hunanwasanaeth CSE</p> <p>Dim newidiadau sylweddol</p>
3	26/01/2021	26.02.21	<p>3.2 Diweddarwyd cyfrifoldebau'r gweithwyr. Mae angen i weithwyr ddarparu tystiolaeth o wasanaeth blaenorol gyda'r GIG wrth ystyried eu hawliau gwyliau blynyddol cychwynnol ar ôl ymuno â'r BIP. Ychwanegwyd cyfrifoldeb lle mae angen i weithwyr nodi gwall o fewn y flwyddyn wyliau gyfredol honno er mwyn iddo gael ei gywiro.</p> <p>4.2 Ychwanegwyd cyfeirnod at offeryn cyfrifo gwyliau blynyddol. Ychwanegwyd dolen i hyn hefyd.</p> <p>4.4 Ychwanegwyd proses CSE ar sut i gofnodi gwyliau blynyddol sy'n cael eu cymryd.</p> <p>4.4.4. Ychwanegwyd adran ynghylch archebu gwyliau, gan nodi na ddylai gweithwyr dalu am wyliau nes bod y rheolwr wedi awdurdodi gwyliau blynyddol. Os yw gweithwyr yn parhau i fynd ar wyliau yna efallai y bydd polisi disgyblu yn cael ei roi ar waith. Rhaid i reolwyr, yn eu tro, ymateb i geisiadau mewn modd amserol.</p> <p>6.4 Ychwanegwyd eglurder mewn perthynas â sifftiau ar alwad yn achos gwyliau banc.</p> <p>7.2 Ychwanegwyd cyfeiriad at effaith pandemig byd-eang ar gario gwyliau blynyddol drosodd i'r blynyddoedd ariannol nesaf. Gan gyfeirio at y Datganiad ar y Cyd gan Fforwm Partneriaeth Cymru GIG Cymru.</p> <p>Atodiad C - Dilëwyd o'r weithdrefn</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	4 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

3a	26/01/2024		<p>3.1 Diwygiwyd hawliau gwyliau blynyddol i ystyried diwrnod gwyliau blynyddol ychwanegol a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Atodiad A - Diwygiwyd hawliau</p>
4	25/09/2024	14/11/2024	<p>Diwygiwyd trefn a fformat y weithdrefn i lifo'n well. Mae rhai rhannau, a oedd yn bodoli eisoes, wedi eu symud yn unol â hynny</p>
			<p>Aralleiriwyd cyfrifoldebau'r rheolwr a'r gweithwyr</p>
			<p>3.2 Ychwanegwyd adran gwasanaeth blaenorol gyda'r GIG a'r sector cyhoeddus Cymru fel Atodiad C, yn hytrach nag o fewn testun y corff</p>
			<p>4.4 Diweddarwyd yr adran gofnodi gwyliau blynyddol i adlewyrchu opsiynau digidol ac ni ddylid defnyddio unrhyw opsiwn papur</p>
			<p>4.5 O fewn yr adran Gwneud Cais am Wyliau Blynyddol – ychwanegwyd ffocws i reolwyr ymdrin â'r sgysiau hyn yn dosturiol</p>
			<p>4.6 Ychwanegwyd adran Cytundebau Lleol i amlinellu ffactorau y dylai rheolwyr eu hystyried wrth ddrafftio cytundebau lleol mewn partneriaeth</p>
			<p>6. Ehangwyd ychydig ar yr adran, cario gwyliau blynyddol drosodd yn ystod salwch hirdymor, i ychwanegu mwy o fanylion</p>
			<p>7.2 Salwch yn ystod Gwyliau Cyhoeddus/Banc - Ychwanegwyd datganiad i adlewyrchu Fforwm Partneriaeth Cymru ar weithwyr sifft 24/7 - O ran gweithwyr sifft a staff eraill sy'n gweithio yn yr amgylchedd 24/7, os yw unigolyn yn sâl ar Wyl Gyhoeddus / Gŵyl y Banc a drefnwyd fel diwrnod gorffwys, yna ni fydd Gŵyl y Banc yn cael ei didynnu o'i hawliau gwyliau blynyddol.</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	5 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

		Atodiad C – Ychwanegwyd canllawiau protocol newydd gan 'Protocol GIG Cymru ar gyfer Cydnabod Gwasanaeth Parhaus' y bydd y BIP yn cydnabod gwasanaeth parhaus cronedig gan gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru at ddibenion gwyliau blynyddol o 1 Hydref 2024.
		8 – Diwygiwyd geiriad cynllun prynu gwyliau blynyddol i adlewyrchu mwy o hyblygrwydd o ran opsiynau talu yn ôl (heb ei gyfyngu i 3,6, neu 9 mis mwyach)

CYNNWYS

1	Cyfrifoldebau	7
2	Blwyddyn Wyliau	8
3	Hawliau	8
4	Gweithdrefn	9
5	Tâl	12
6	Cario Gwyliau Blynyddol Drosodd	13
7	Sefyllfaoedd Eraill	14
8	Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol	16

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	6 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

Atodiadau		
A	Hawl i Wyliau Blynyddol	17
B	Hawliau Gwyliau Cyhoeddus / Gwyliau Banc	19
C	Cyfrifo gwasanaeth blaenorol gyda'r GIG	21

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	7 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

1	<p>CYFRIFOLDEBAU</p> <p>Y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant sy'n gyfrifol am weithredu'r weithdrefn hon</p> <p>Mae rheolwyr yn gyfrifol am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gymhwyso dull tosturiol at geisiadau gwyliau blynyddol • Ymateb i geisiadau mewn modd amserol • Sicrhau bod gweithwyr yn cynllunio eu gwyliau blynyddol yn effeithiol, fel eu bod yn cael seibiannau yn rheolaidd er mwyn osgoi gormod o wyliau / diffyg gwyliau ar ddiwedd y flwyddyn wyliau • Cyfrifo hawl aelod o staff i wyliau blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus/Banc, gan ystyried hyd y gwasanaeth • Cofnodi a monitro gwyliau blynyddol ar CSE neu system gylchrestru gytunedig arall • Sicrhau bod pob cais yn cael ei reoli'n deg, gan gydbwysio lefelau staffio ac anghenion y gwasanaeth, ynghyd ag anghenion yr unigolyn • Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn hon a'r prosesau ar gyfer gofyn ac archebu gwyliau yn lleol o fewn eu tîm • Bod yn ymwybodol o ba bryd y mae eu staff yn cyrraedd 5 a 10 mlynedd o wasanaeth i sicrhau bod eu hawl yn gywir • Gwneud eu tîm yn ymwybodol bod unrhyw wyliau banc angenrheidiol yn cael eu didynnu o'u hawl <p>Mae gweithwyr yn gyfrifol am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gadw cofnod cywir o'u statws gwyliau blynyddol eu hunain yn unol â CSE neu gofnodion cylchrestru • Defnyddio eu hawl gwyliau blynyddol o fewn y flwyddyn wyliau, gan sicrhau seibiannau ystyrllon yn rheolaidd i gynnal lles da a chydbwysedd bywyd gwaith • Darparu tystiolaeth o gyfanswm eu gwasanaeth GIG i gefnogi eu rheolwr wrth gyfrifo hawl gwyliau blynyddol, a sicrhau bod eu rheolwr yn ymwybodol pan fyddant yn cyrraedd 5 a 10 mlynedd o wasanaeth • Sicrhau bod unrhyw wyliau banc angenrheidiol yn cael eu didynnu o'u hawl • Dilyn y weithdrefn hon ac unrhyw arferion y cytunwyd arnynt yn lleol (e.e. y rhybudd angenrheidiol) wrth ofyn ac archebu gwyliau blynyddol • Ceisio awdurdodiad eu rheolwr llinell ar gyfer pob cyfnod o wyliau blynyddol • Peidio â chymryd gwyliau blynyddol neu wneud unrhyw archebion ar gyfer gwyliau nes bod eu cais am wyliau blynyddol wedi'i gymeradwyo • Cydweithredu ag aelodau eraill o'r tîm wrth ofyn am wyliau hanfodol (e.e. gwyliau ysgol, gwyliau crefyddol ac ati) ac ystyried gofynion adegau gwasanaeth brig • Rhoi rhybudd priodol os bydd angen iddynt ganslo unrhyw wyliau blynyddol a archebwyd ymlaen llaw
----------	---

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	8 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>Y Tîm Gwasanaethau Pobl sy'n gyfrifol am gynghori pob parti ar gymhwyso'r weithdrefn hon ac am ddarparu arweiniad penodol i reolwyr a staff yn ôl yr angen. Gellir gofyn am gyngor hefyd gan Gynrychiolwyr yr Undebau Llafur.</p>												
2	BLWYDDYN WYLIAU												
	Mae'r flwyddyn wyliau'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben ar 31 Mawrth .												
3	HAWLIAU												
3.1	<p>Mae hawliau i wyliau blynyddol wedi'u nodi yng nghytundeb cyflogaeth y gweithiwr, fel y pennir gan Delerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG.</p> <p><i>Dyma'r hawl ar gyfer blynyddoedd cyfan o wasanaeth</i></p> <p>Ar gyfer staff amser llawn (37.5 awr), mae'r hawl i wyliau bob blwyddyn fel a ganlyn:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Hyd y gwasanaeth</th> <th>Gwyliau Blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus/Banc (Dyddiau)</th> <th>Trosi i oriau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Ar ôl penodi</td> <td>28 diwrnod + 8 diwrnod</td> <td>210 awr + 60 awr</td> </tr> <tr> <td>Ar ôl pum mlynedd o wasanaeth</td> <td>30 diwrnod + 8 diwrnod</td> <td>225 awr + 60 awr</td> </tr> <tr> <td>Ar ôl deng mlynedd o wasanaeth</td> <td>34 diwrnod + 8 diwrnod</td> <td>255 awr + 60 awr</td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae gan staff rhan-amser hawl i gael hawl pro-rata (ar gyfer gwyliau blynyddol a gwyliau cyhoeddus/banc) yn seiliedig ar eu horiau contract.</p> <p>Gellir dod o hyd i'r hawl pro-rata yn Atodiad A a B.</p> <p>Hawliau Gwyliau Cyhoeddus / Gwyliau Banc</p> <p>Fel yn y tabl uchod, mae 8 o Wyliau Cyhoeddus / Banc mewn blwyddyn wyliau arferol, er yn dibynnu ar amseru'r Pasg, gall hyn amrywio o 6 i 10.</p> <p>Gellir gweld rhestr o wyliau banc sydd ar y gweill ar wefan y Llywodraeth: https://www.gov.uk/gwyliau-banc</p> <p>Mae Atodiad B yn cynnwys hawl Gwyliau Cyhoeddus/Banc i'r holl staff, fesul oriau Gwyliau Cyhoeddus/Banc a fesul cyfanswm am flwyddyn wyliau llawn.</p> <p>Mae gan weithwyr amser llawn hawl i bob Gwyliau Cyhoeddus/Banc sy'n dod o fewn y flwyddyn wyliau honno wrth fod hawl gweithwyr rhan-amser yn cael ei gyfrifo ar sail pro-rata.</p>	Hyd y gwasanaeth	Gwyliau Blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus/Banc (Dyddiau)	Trosi i oriau	Ar ôl penodi	28 diwrnod + 8 diwrnod	210 awr + 60 awr	Ar ôl pum mlynedd o wasanaeth	30 diwrnod + 8 diwrnod	225 awr + 60 awr	Ar ôl deng mlynedd o wasanaeth	34 diwrnod + 8 diwrnod	255 awr + 60 awr
Hyd y gwasanaeth	Gwyliau Blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus/Banc (Dyddiau)	Trosi i oriau											
Ar ôl penodi	28 diwrnod + 8 diwrnod	210 awr + 60 awr											
Ar ôl pum mlynedd o wasanaeth	30 diwrnod + 8 diwrnod	225 awr + 60 awr											
Ar ôl deng mlynedd o wasanaeth	34 diwrnod + 8 diwrnod	255 awr + 60 awr											

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	9 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>D.S. Mae Atodiad B yn dangos cronriad o hawl Gwyliau Cyhoeddus / Banc yn unig. Wrth gofnodi gwyliau a gymerwyd ar Ŵyl Gyhoeddus/Gŵyl y Banc, dylid didynnu'r oriau a fyddai fel arfer wedi'u gweithio ar y diwrnod hwnnw o gyfanswm yr hawl i wyliau, h.y. hyd 'diwrnod' gwaith safonol. Weithiau gall hyn fod yn fwy na'r hawl sydd gan weithiwr rhan-amser ar gyfer 'diwrnod' gŵyl y banc, felly byddai gweddill y gwyliau yn cael eu cymryd o'i hawl i wyliau blynyddol cyffredinol.</p> <p>Newidiadau drwy gydol y flwyddyn wyliau</p> <p>Pan fydd yr hawl gwyliau yn newid yn ystod y flwyddyn wyliau oherwydd cynnydd neu ostyngiad mewn oriau cytundebol, dylid cyfrifo'r hawl ar gyfer pob cyfnod ar wahân yn seiliedig ar yr oriau cytundebol a'u hychwanegu at ei gilydd gan ddefnyddio'r fformiwla yn adran 4 isod.</p> <p>Os bydd hawl y gweithiwr yn newid oherwydd ei fod yn cyrraedd 5 neu 10 mlynedd o wasanaeth, dylai'r system fonitro CSE ddiweddarau'n awtomatig. Mae'n bwysig i reolwyr gywiro hyn os nad yw'r hawl wedi newid.</p>
3.2	<p>Gwasanaeth blaenorol gyda'r GIG a Sector Cyhoeddus Cymru (gwasanaeth cyfrifadwy)</p> <p>Bydd Gwasanaeth blaenorol gyda'r GIG gyda chyflogwr arall y GIG yn cael ei ystyried yn 'wasanaeth cyfrifadwy' at ddibenion gwyliau blynyddol, dim ond pan fydd y dystiolaeth angenrheidiol yn cael ei chyflwyno.</p> <p>O 1 Hydref 2024 bydd y BIP yn cydnabod gwasanaeth parhaus croniedig gan gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru at ddibenion gwyliau blynyddol. Bydd cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu Protocol GIG Cymru ar gyfer Cydnabod Gwasanaeth Parhaus yn ystyried gwasanaeth parhaus gweithiwr a gafwyd mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus arall. Bydd y gweithiwr yn cael yr hawl gwyliau blynyddol sy'n gysylltiedig â hyd gwasanaeth di-dor y gweithiwr a enillwyd mewn cyflogaeth gwasanaeth cyhoeddus.</p> <p>Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau ar gyfrifo gwasanaeth cyfrifadwy yn Atodiad C</p>
4	GWEITHDREFN
4.1	<p>Cyfrifo gwyliau</p> <p>I gyfrifo cyfanswm hawl gwyliau gweithiwr mewn oriau (gan gynnwys Gwyliau Banc), dylid adio'r ffigurau yn Atodiad A a B gyda'i gilydd.</p> <p>Dylid cofnodi pob gwyliau mewn oriau er mwyn sicrhau bod yr hawl unigol yn gywir ac yn deg.</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	10 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>Mae'r oriau i'w talgrynnu i fyny neu i lawr i'r 1/4 awr agosaf.</p> <p>Dylai rheolwyr llinell gyfeirio at y Gwasanaethau Pobl i gael cyngor yn ystod y tymor, oriau blynyddol neu gytundebau anarferol eraill.</p> <p>Gellir defnyddio'r gyfrifiannell gwyliau blynyddol i gyfrifo hawl gwyliau blynyddol gweithwyr y tu allan i'r flwyddyn wyliau arferol.</p> <p>Gellir dod o hyd i'r gyfrifiannell gwyliau blynyddol ar y Pecyn Cymorth Gwyliau Blynyddol</p>
4.2	<p>Cyfrifo ar gyfer dechreuwyr newydd</p> <p>Mae hawl gwyliau blynyddol dechreuwyr newydd yn cael ei gronni a'i gyfrifo o'r diwrnod cyntaf o gyflogaeth hyd at ddiwedd y flwyddyn wyliau gan ddefnyddio'r cyfrifiad canlynol:</p> <p>hawl blwyddyn wyliau lawn X <u>nifer y diwrnodau calendr (dyddiad dechrau i ddiwedd y flwyddyn wyliau)</u></p> <p style="text-align: center;">365</p> <p>Dylai'r system fonitro CSE boblogi'n awtomatig ar gyfer dechreuwyr newydd, ond mae'n bwysig i'r gweithiwr a'r rheolwr llinell wirio ei fod yn gywir, gan ystyried unrhyw wasanaeth blaenorol gyda'r GIG ac ati.</p>
4.3	<p>Cyfrifo ar gyfer y rheini sy'n gadael</p> <p>Mae gan staff sy'n gadael y BIP hawl i gael eu talu am unrhyw wyliau blynyddol a gronnwyd ac nac ydynt wedi'u cymryd. Dylid defnyddio'r fformiwla ganlynol i gyfrifo'r hawl gwyliau blynyddol hyd at y dyddiad terfynu o ddechrau'r flwyddyn wyliau:</p> <p>hawl blwyddyn wyliau lawn X <u>nifer y diwrnodau calendr (dechrau'r flwyddyn wyliau i'r diwrnod gadael)</u></p> <p style="text-align: center;">365</p> <p>Pan fydd gwyliau blynyddol a gymerwyd yn fwy na'r hawl, bydd taliad yn cael ei ddidynnu o'r cyflog terfynol.</p>
4.4	<p>Cofnodi gwyliau blynyddol</p> <p>Dylid cofnodi gwyliau blynyddol yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> • System recordio electronig CSE • System e-Roster sy'n mewnforio data yn ôl i CSE

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	11 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>Ni ddylid defnyddio systemau papur ar gyfer archebu neu fonitro gwyliau blynyddol mwyach</p> <p>Pan fydd unrhyw wyliau yn cael eu cymryd (boed yn flynyddol neu'n wyliau cyhoeddus/banc) dylid didynnu'r oriau contract a weithir fel arfer ar y diwrnod hwnnw o gyfanswm yr hawl gwyliau. Mae hyn yn berthnasol ym mhob achos, gan gynnwys lle mae trefniadau gweithio hyblyg (e.e. oriau cywasgedig) ar waith.</p> <p>Wrth gofnodi gwyliau a gymerwyd ar Wyl Gyhoeddus/Gŵyl y Banc, dylid didynnu'r oriau a fyddai fel arfer wedi'u gweithio ar y diwrnod hwnnw o gyfanswm yr hawl gwyliau, h.y. hyd 'diwrnod' gwaith safonol.</p>
4.5	<p>Ceisiadau am Wyliau Blynyddol</p> <p>Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylai gweithwyr allu cymryd eu gwyliau blynyddol pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn gyraeddadwy a bydd yn dibynnu ar anghenion gwasanaeth. Os na all rheolwyr gymeradwyo'r cais, yna dylid ymdrin â hyn yn dosturiol a'i drafod gyda'r gweithiwr.</p> <p>Ni ddylai gweithwyr wneud unrhyw archebion na thaliadau ar gyfer gwyliau nes bod eu cais am wyliau blynyddol wedi'i gymeradwyo. Os bydd gweithwyr yn parhau i gymryd gwyliau blynyddol pan nad yw wedi'i awdurdodi, gellir ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig ac arwain at gamau pellach dan y Polisi a'r Weithdrefn Ddisgyblu. Rhaid i reolwyr ymateb yn eu tro i geisiadau am wyliau blynyddol mewn modd amserol, heb oedi afresymol i osgoi'r sefyllfa uchod rhag codi.</p> <p>Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caniateir gwyliau blynyddol y gofynnir iddynt gael eu dwyn ymlaen o hawl y flwyddyn nesaf, lle mae'r holl opsiynau eraill wedi'u hystyried yn llawn. Os awdurdodir y gwyliau, yna rhaid i'r rheolwr llinell gofnodi'r gwyliau hyn a'u didynnu fel sy'n briodol o hawl y flwyddyn wyliau ganlynol.</p>
4.6	<p>Cytundeb Lleol</p> <p>Dylai fod gan adrannau gytundeb lleol manwl, y cytunwyd arno mewn partneriaeth â chynrychiolwyr o ochr y staff, sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth y maes gwaith penodol hwnnw. Dylai'r cytundeb lleol gyfeirio at y weithdrefn hon ac ni ddylai ddyblygu pwyntiau a gwmpesir yn y weithdrefn hon.</p> <p>Gallai hyn gynnwys ffactorau fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Faint o weithwyr o bob grŵp staff all fod ar wyliau ar yr un pryd • Faint o wythnosau y gellir eu cymryd yn ystod cyfnodau brig neu 'argyfyngus' e.e. gwyliau'r haf, gwyliau crefyddol ac ati. • Beth yw'r broses awdurdodi, e.e. pwy sydd angen awdurdodi gwyliau • Sut y dylid gwneud cais am wyliau • Faint o rybudd sydd angen ei roi wrth ofyn am wyliau

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	12 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<ul style="list-style-type: none"> Cyfnodau o wyliau blynyddol wedi'u cynllunio i atal brig mewn gwyliau blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn a sicrhau bod y gwyliau yn cael ei ledaenu'n gyfartal drwy gydol y flwyddyn, e.e. dylid annog staff clinigol i gynllunio 75-80% o'u cyfnod gwyliau ar ddechrau pob blwyddyn galendr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Lleihau'r angen am wasanaeth cyflenwi o'n banc staffio neu gan Asiantaeth Unrhyw beth arall a allai fod yn berthnasol i'r adran
5	TÂL
5.1	Bydd tâl yn ystod gwyliau blynyddol yn cynnwys atchwanegiadau a delir yn rheolaidd gan gynnwys unrhyw breimymau recriwtio a chadw, taliadau am waith y tu allan i oriau arferol ac atchwanegiadau ardal cost uchel. Mae gweithwyr yn derbyn taliad y gyfarwyddeb oriau gwaith misol yn seiliedig ar eu henillion a grybwyllwyd uchod, nid yw'n cael ei gyfrifo ar wahân bob tro y bydd gweithiwr yn cymryd gwyliau blynyddol.
5.2	Taliadau yn ystod Gwyliau Cyhoeddus / Gwyliau Banc
	<p>Efallai y bydd gofyn i aelodau staff weithio ar Wyliau Cyhoeddus / Banc yn unol â'u patrwm gwaith neu rota.</p> <p>Mae gan staff y mae'n ofynnol iddynt weithio neu sydd 'ar alwad' ar Wyl Gyhoeddus/Gwyl y Banc hawl i'r taliadau uwch priodol ac i gymryd yr amser cyfatebol sy'n ddyledus iddynt yn gyfnewid am gyfraddau sylfaenol yn ddiweddarach. Rhaid i staff sy'n cymryd yr amser sy'n ddyledus iddynt yn gyfnewid am dâl yn ddiweddarach ei archebu fel gwyliau blynyddol o'u hawl gwyliau blynyddol.</p> <p>Ym mhob achos, os nad yw staff yn cael eu hamserlenni i weithio ar Wyl Gyhoeddus/Gwyl y Banc neu os yw'r Wyl Gyhoeddus/Gwyl y Banc yn disgyn ar eu diwrnod arferol i ffwrdd, ni ddidynnir unrhyw oriau o'u hawl, a gellir cymryd yr amser i ffwrdd cyfatebol ar achlysur arall.</p> <p>Pan fydd Gwyliau Cyhoeddus/Banc yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn disgyn ar benwythnosau, bydd diwrnodau amgen yn cael eu hailddynodi fel pe baent yn Wyliau Cyhoeddus/Banc a'r taliadau priodol yn cael eu cymhwyso. Ni fydd staff yn derbyn taliadau ychwanegol am y diwrnodau amgen a'r diwrnodau a fyddai fel arall wedi bod yn Wyliau Cyhoeddus/Banc.</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	13 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>At ddibenion cyflog, mae Gŵyl Gyhoeddus/Gŵyl y Banc yn dechrau ac yn gorffen am hanner nos. Bydd taliadau Gwyliau Cyhoeddus/Banc yn cael eu gwneud yn unol â nifer yr oriau a weithiwyd yn ystod y cyfnod hwn.</p>
5.3	<p>Cau adrannau ar Wyliau Cyhoeddus/Banc a gwasanaethau cyfyngedig</p> <p>Mewn adrannau sydd fel arfer yn cau ar Wyliau Cyhoeddus/Banc, rhaid i aelodau o staff naill ai gymryd yr amser hwnnw fel gwyliau blynyddol (wedi'u harchebu yn y ffordd arferol) neu, gyda chytundeb ymlaen llaw gan eu rheolwr, weithio'r oriau hyn ar adeg neu le arall.</p> <p>Gall staff sy'n gweithio mewn adrannau sydd fel arfer yn cau ar Wyl Gyhoeddus/Gŵyl y Banc ei chael yn ddefnyddiol tynnu'r nifer briodol o oriau o gyfanswm eu balans gwyliau (h.y. Gwyliau Blynyddol a Gwyliau Cyhoeddus/Banc) ar ddechrau'r flwyddyn yn hytrach nag wrth iddynt ddigwydd.</p> <p>Mewn adrannau sydd fel arfer yn gweithio ar Wyliau Cyhoeddus/Banc, rhaid i aelodau staff sy'n dymuno cymryd gwyliau wneud didyniad priodol o'u horiau gwaith arferol ar gyfer y diwrnod hwnnw o'u hawl gwyliau. Bydd y rheolau archebu arferol ar gyfer yr adran yn berthnasol.</p> <p>Gall rhai adrannau leihau eu gwasanaethau am y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, ac felly disgwylir i staff ddyrannu'r gwyliau blynyddol angenrheidiol ar gyfer y dyddiau hynny nad ydynt yn Wyliau Cyhoeddus/Banc. Bydd staff yn cael gwybod am y trefniant hwn pan fyddant yn ymuno ag adran o'r fath.</p> <p>Pan fydd hyn yn digwydd, ad hoc ac ar fyr rybudd, gall y Tîm Gwasanaethau Pobl a chynrychiolwyr staff ddarparu cymorth.</p>
6	<p>CARIO GWYLIAU BLYNYDDOL DROSODD</p> <p>Mae disgwyl i weithwyr gymryd eu hawl gwyliau blynyddol yn y flwyddyn wyliau berthnasol. Nid oes hawl awtomatig i wyliau blynyddol gael eu cario drosodd i'r flwyddyn wyliau nesaf.</p> <p>Mewn amgylchiadau eithriadol, gall gweithwyr ofyn yn ysgrifenedig i gario cyfnod o 5 diwrnod drosodd (pro-rata ar gyfer staff rhan-amser). Fodd bynnag, nid yw'n arfer arferol i'r BIP gymeradwyo ceisiadau o'r fath ac mae angen cytuno arnynt ar lefel cyfarwyddiaeth.</p> <p>Efallai y bydd adegau pan fydd angen i reolwyr wrthod ceisiadau gwyliau blynyddol oherwydd lefelau staffio is neu oherwydd bod gormod o staff yn gofyn am yr un amser i ffwrdd. Disgwylir y byddai rheolwyr yn monitro'r sefyllfa hon ac yn blaengynllunio i sicrhau y gall gweithwyr gymryd gwyliau blynyddol er mwyn osgoi unrhyw angen am gario gwyliau drosodd.</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	14 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>Dylid annog gweithwyr i gymryd gwyliau blynyddol rheolaidd a dylent barhau i drefnu a chymryd gwyliau blynyddol rheolaidd i sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion y gwasanaeth a lles gweithwyr.</p> <p>Cario gwyliau blynyddol drosodd yn ystod salwch hirdymor</p> <p>Os nad yw gweithiwr wedi cymryd ei hawl gwyliau blynyddol yn ystod cyfnod absenoldeb salwch a phan fo'r cyfnod absenoldeb yn rhychwantu dwy flynedd neu fwy o wyliau blynyddol, byddant yn cronni gwyliau blynyddol am gyfnod eu habsenoldeb salwch ar yr isafswm hawl statudol (20 diwrnod, pro-rata) heb unrhyw wyliau sydd eisoes wedi'u cymryd y flwyddyn wyliau honno. Os yw'r isafswm hawl statudol eisoes wedi'i gymryd, ni ellir cario unrhyw wyliau drosodd.</p> <p>Felly, cynghorir rheolwyr a staff i gysylltu â'r Gwasanaethau Pobl i gael cyngor penodol, ond cynghorir y dylid cymryd gwyliau blynyddol yn ystod yr absenoldeb, yn hytrach na'u cronni a'u cario drosodd i'r flwyddyn wyliau nesaf. Rhaid i weithwyr sy'n dymuno cymryd / cael eu talu am eu gwyliau blynyddol tra byddant ar absenoldeb salwch, gwblhau'r ffurflen 'Cais am Dâl am Wyliau Blynyddol tra ar Absenoldeb Salwch Ardystiedig' a'i hanfon at eu rheolwr i'w gymeradwyo.</p>
7	SEFYLLFAOEDD ERAILL
7.1	<p>Staff i ffwrdd o'r gweithle</p> <p>Dylai staff sydd i ffwrdd o'r gweithle gyfeirio at y polisi, y weithdrefn neu'r canllawiau perthnasol ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â'u gwyliau blynyddol, er enghraifft: Polisi mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant a Rennir, Secondiad, Seibiant Cyflogaeth a Rheoli Presenoldeb ac ati.</p> <p>Os yw rheolwyr neu staff yn ansicr ynghylch pa bolisi neu weithdrefn i gyfeirio ato, cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Pobl.</p>
7.2	<p>Salwch yn ystod Gŵyl Gyhoeddus / Gŵyl y Banc</p> <p>Os nad yw adran ar agor ar Wyliau Cyhoeddus / Banc a bod y gweithiwr wedi archebu'r diwrnod fel gwyliau, yna wedi adrodd ei fod yn sâl, nid oes hawl ganddo i ddiwrnod i ffwrdd ychwanegol a dylid didynnu'r oriau o'i hawl fel arfer.</p> <p>O ran gweithwyr sifft a staff eraill sy'n gweithio yn yr amgylchedd 24/7, os yw unigolyn yn sâl ar Wyl Gyhoeddus / Gŵyl y Banc a drefnwyd fel diwrnod gorffwys, yna ni fydd Gŵyl y Banc yn cael ei didynnu o'i hawliau gwyliau blynyddol.</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	15 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

	<p>Os yw unigolyn yn sâl ar Wyl Gyhoeddus/Gŵyl y Banc a drefnwyd iddo weithio, yna didynnir Gŵyl Gyhoeddus/Banc o'i hawl gwyliau yn y ffordd arferol ac ni fydd hawl ganddo i ddiwrnod i ffwrdd ychwanegol.</p>
7.3	<p>Staff yn symud o fewn BIP Caerdydd a'r Fro</p>
	<p>Pan fydd staff yn symud i swyddi / adrannau / safleoedd eraill o fewn y BIP, maent yn trosglwyddo eu hawl gwyliau blynyddol am weddill y flwyddyn wyliau. Bydd unrhyw wyliau sydd eisoes wedi'u harchebu'n cael eu hanrhydeddu. Dylai staff hysbysu eu rheolwr newydd o'r dyddiadau hyn cyn cychwyn yn y swydd newydd neu yn ystod y cyfweliad.</p>
7.4	<p>Cynghorir rheolwyr i drafod gyda'r gweithiwr faint o wyliau y maent wedi'i gronni hyd at y dyddiad y maent yn gadael yr adran fel nad ydynt yn cymryd gormod o wyliau gyda nhw (yn enwedig os yw eu dyddiad cychwyn gyda'r adran newydd yn agos at ddiwedd y flwyddyn wyliau).</p>
	<p>Marwolaeth yn y Swydd</p>
	<p>Pan fydd gweithiwr yn marw yn y swydd, bydd lwfans sy'n cyfateb i falans yr hawl gwyliau blynyddol ar ddyddiad y farwolaeth, a gyfrifir ar sail gymesur, yn cael ei dalu i gynrychiolydd personol y gweithiwr. Ni ddylid didynnu o'r taliad cyflog terfynol os yw'r gwyliau blynyddol a gymerwyd yn fwy na'i hawl ar ddyddiad y farwolaeth.</p>
7.5	<p>Seibiant cyflogaeth</p>
	<p>Nid yw staff ar seibiant cyflogaeth di-dâl yn cronni gwyliau blynyddol, gan fod y contract cyflogaeth wedi'i atal dros dro drwy gydol y seibiant ac nid yw'r cyfnod hwnnw'n cyfrif fel gwasanaeth parhaus gyda'r BIP.</p>
7.6	<p>Absenoldeb di-dâl</p>
	<p>Nid yw absenoldeb blynyddol di-dâl yn hawl, ond gellir ei gymeradwyo mewn amgylchiadau eithriadol yn ôl disgrisiwn y rheolwr llinell pan fydd yr hawl gwyliau blynyddol â thâl wedi'i hystyried yn llawn.</p>
7.7	<p>Lle mae gwyliau blynyddol eisoes wedi'u trefnu ac mae amgylchiadau annisgwyl yn codi, sy'n golygu bod angen i'r gweithiwr gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, dylid defnyddio absenoldeb â thâl yn gyntaf, a rhoddir absenoldeb di-dâl am y cyfnod a archebwyd ymlaen llaw.</p>
	<p>Mathau eraill o absenoldebau awdurdodedig</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	16 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

<p>7.8</p> <p>7.9</p>	<p>Dylai rheolwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau eraill sy'n ymdrin ag amser i ffwrdd o'r gweithle megis y Polisi Absenoldeb Arbennig, Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith a gweithdrefnau Amser am Dâl lleol, a sicrhau bod pob un yn cael ei ddefnyddio dan amgylchiadau priodol.</p> <p>Cyfnodau estynedig o Wyliau Blynyddol</p> <p>Dylai rheolwyr fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai fod adegau pan fydd gweithwyr unigol yn dymuno cymryd Gwyliau Blynyddol am gyfnod hwy nag a fyddai'n cael ei gymeradwyo fel arfer e.e. o gwmpas adeg eu priodas/mis mêl, am gyfle 'unwaith mewn oes', i ymweld â theulu sy'n byw dramor. Dylid rhoi ystyriaeth i'r ceisiadau hyn a'u bodloni lle y bo hynny'n bosib, cyn belled â bod modd diwallu anghenion y gwasanaeth hefyd.</p> <p>Gwyliau Crefyddol</p> <p>Dylai rheolwyr ystyried unrhyw gais ffafriol gan staff i gymryd gwyliau â thâl ar gyfer gwyliau crefyddol. Dylai ceisiadau o'r fath fod yn flaenoriaeth lle y bo hynny'n bosib, er y bydd angen i reolwyr gydbwyso anghenion y gwasanaeth a dyrannu'r gwyliau'n deg i staff sy'n cadw'r un gwyliau crefyddol. Dylai gweithwyr hysbysu rheolwyr cyn gynted â phosib o'r dyddiadau hyn, fel y gellir gwneud trefniadau priodol.</p>
<p>8</p>	<p>CYNLLUN PRYNU GWYLIAU BLYNYDDOL</p>
	<p>Mae'r Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol yn golygu y gall staff wneud cais i 'brynu' hyd at bythefnos o Wyliau Blynyddol ychwanegol</p> <p>Bydd ceisiadau cymeradwy yn cael eu prosesu gan y gyflogres a bydd yr addasiadau i gyflog yn dechrau ar y dyddiad cyflog nesaf sydd ar gael, gyda'r ad-daliadau yn cael eu gwneud mewn symiau cyfartal am weddill y flwyddyn ariannol, gyda'r holl arian yn cael ei ad-dalu erbyn 31 Mawrth.</p> <p>Gofynnir i staff gadarnhau ymlaen llaw y dyddiadau yr hoffon nhw ddefnyddio'r gwyliau blynyddol ychwanegol, fel y gall eu rheolwr gynllunio ar gyfer yr absenoldeb hwn. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar ansawdd y gofal cleifion a ddarparwn ac nad oes costau ychwanegol i'r BIP.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r BIP yn cadw'r hawl i wrthod cais i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol os bydd gwyliau yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth o ddydd i ddydd gwasanaethau neu'n effeithio'n andwyol ar y tîm.</p> <p>Dylai staff sicrhau bod eu hawl gwyliau blynyddol wedi'i ddiweddarau ar CSE ar ôl prynu gwyliau a dylent wirio gyda'r gyflogres os oes anghysondeb.</p>

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	17 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

**ATODIAD A - Agenda ar gyfer Newid: Hawl i Wyliau Blynyddol ar gyfer
Blynyddoedd Cyflawn heb gynnwys Gwyliau Cyhoeddus / Banc**

Fformiwla: Oriau contract wythnosol/5 x nifer y diwrnodau gwyliau blynyddol y mae ganddynt hawl iddynt.

ORIAU CONTRACT YTHNOSOL SYLFAENOL	AR ÔL PENODI	AR ÔL 5 MLYNEDD O WASANAETH	AR ÔL 10 MLYNEDD O WASANAETH
	28 DIWRNOD	30 DIWRNOD	34 DIWRNOD
	ORIAU CYFWERTH:		
37.5	210.0	225.0	255.0
37.0	207.0	222.0	251.5
36.5	204.5	219.0	248.0
36.0	201.5	216.0	245.0
35.5	199.0	213.0	241.5
35.0	196.0	210.0	238.0
34.5	193.0	207.0	234.5
34.0	190.5	204.0	231.0
33.5	187.5	201.0	228.0
33.0	185.0	198.0	224.5
32.5	182.0	195.0	221.0
32.0	179.0	192.0	217.5
31.5	176.5	189.0	214.5
31.0	173.5	186.0	211.0
30.5	171.0	183.0	207.5
30.0	168.0	180.0	204.0
29.5	165.0	177.0	200.5
29.0	162.5	174.0	197.0
28.5	159.5	171.0	194.0
28.0	157.0	168.0	190.5
27.5	154.0	165.0	187.0
27.0	151.0	162.0	183.5
26.5	148.5	159.0	180.0
26.0	145.5	156.0	177.0
25.5	143.0	153.0	173.5
25.0	140.0	150.0	170.0
24.5	137.5	147.0	166.5
24.0	134.5	144.0	163.0
23.5	131.5	141.0	159.8
23.0	129.0	138.0	161.0
22.5	126.0	135.0	153.0
22.0	123.0	132.0	149.5
21.5	120.5	129.0	146.0
21.0	117.5	126.0	143.0
20.5	115.0	123.0	139.5
20.0	112.0	120.0	136.0

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	18 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

ORIAU CONTRACT WYTHNOSOL SYLFAENOL	AR ÔL PENODI	AR ÔL 5 MLYNEDD O WASANAETH	AR ÔL 10 MLYNEDD O WASANAETH
	28 DIWRNOD	30 DIWRNOD	34 DIWRNOD
	ORIAU CYFWERTH:		
19.5	109.0	117.0	132.5
19.0	106.5	114.0	129.0
18.5	103.5	111.0	126.0
18.0	101.0	108.0	122.5
17.5	98.0	105.0	119.0
17.0	95.0	102.0	115.5
16.5	92.5	99.0	112.0
16.0	89.5	96.0	109.0
15.5	87.0	93.0	105.5
15.0	84.0	90.0	102.0
14.5	81.0	87.0	98.5
14.0	78.5	84.0	95.0
13.5	75.5	81.0	92.0
13.0	73.0	78.0	88.5
12.5	70.0	75.0	85.0
12.0	67.0	72.0	81.5
11.5	64.5	69.0	78.0
11.0	61.5	66.0	74.5
10.5	59.0	63.0	71.5
10.0	56.0	60.0	68.0
9.5	53.0	57.0	64.5
9.0	50.5	54.0	61.0
8.5	47.5	51.0	58.0
8.0	45.0	48.0	54.5
7.5	42.0	45.0	51.0
7.0	39.0	42.0	47.5
6.5	36.5	39.0	44.0
6.0	33.5	36.0	41.0
5.5	31.0	33.0	37.5
5.0	28.0	30.0	24.0
4.5	25.0	27.0	30.5
4.0	22.5	24.0	27.0
3.5	19.5	21.0	24.0
3.0	17.0	18.0	20.5
2.5	14.0	15.0	17.0
2.0	11.0	12.0	13.5
1.5	8.5	9.0	10.0
1.0	5.5	6.0	7.0
0.5	3.0	3.0	3.5

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	19 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

**ATODIAD B - Agenda ar gyfer Newid: Cyfrifo
Hawliau Gwyliau Cyhoeddus / Gwyliau Banc**

Fformiwla: Oriau contract wythnosol/5 x nifer y Gwyliau Banc yn y flwyddyn 1 Ebrill – 31 Mawrth

ORIAU CONTRACT SYLFAENOL WYTHNOSOL	HAWL FESUL AWR AR GYFER BLWYDDYN WYLIAU LAWN	HAWL FESUL AWR AR BOB GWYL Y BANC WRTH IDDI DDIGWYDD
	(8 O WYLIAU BANC)	
37.5	60.0	7.5
37.0	59.0	7.4
36.5	58.5	7.3
36.0	57.5	7.2
35.5	57.0	7.1
35.0	56.0	7.0
34.5	55.0	6.9
34.0	54.5	6.8
33.5	53.5	6.7
33.0	53.0	6.6
32.5	52.0	6.5
32.0	51.0	6.4
31.5	50.5	6.3
31.0	49.5	6.2
30.5	49.0	6.1
30.0	48.0	6.0
29.5	47.0	5.9
29.0	46.5	5.8
28.5	45.5	5.7
28.0	45.0	5.6
27.5	44.0	5.5
27.0	43.0	5.4
26.5	42.5	5.3
26.0	41.5	5.2
25.5	41.0	5.1
25.0	40.0	5.0
24.5	39.0	4.9
24.0	38.5	4.8
23.5	37.5	4.7
23.0	37.0	4.6
22.5	36.0	4.5
22.0	35.0	4.4
21.5	34.5	4.3
21.0	33.5	4.2
20.5	33.0	4.1
20.0	32.0	4.0

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	20 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

ORIAU CONTRACT SYLFAENOL WYTHNOSOL	HAWL FESUL AWR AR GYFER BLWYDDYN WYLIAU LAWN	HAWL FESUL AWR AR BOB GŴYL Y BANC WRTH IDDI DDIGWYDD
	(8 O WYLIAU BANC)	
19.5	31.0	3.9
19.0	30.5	3.8
18.5	29.5	3.7
18.0	29.0	3.6
17.5	28.0	3.5
17.0	27.0	3.4
16.5	26.5	3.3
16.0	25.5	3.2
15.5	25.0	3.1
15.0	24.0	3.0
14.5	23.0	2.9
14.0	22.5	2.8
13.5	21.5	2.7
13.0	21.0	2.6
12.5	20.0	2.5
12.0	19.0	2.4
11.5	18.5	2.3
11.0	17.5	2.2
10.5	17.0	2.1
10.0	16.0	2.0
9.5	15.0	1.9
9.0	14.5	1.8
8.5	13.5	1.7
8.0	13.0	1.6
7.5	12.0	1.5
7.0	11.0	1.4
6.5	10.5	1.3
6.0	9.5	1.2
5.5	9.0	1.1
5.0	8.0	1.0
4.5	7.0	0.9
4.0	6.5	0.8
3.5	5.5	0.7
3.0	5.0	0.6
2.5	4.0	0.5
2.0	3.0	0.4
1.5	2.5	0.3
1.0	1.5	0.2
0.5	1.0	0.1

Teitl y Ddogfen: Gweithdrefn Gwyliau Blynyddol	21 o 21	Dyddiad Cymeradwyo: 25.09.2024
Cyfeirnod: BIP 166		Dyddiad Adolygu Nesaf: 25.09.2027
Rhif y Fersiwn: 4		Dyddiad Cyhoeddi: 14/11/2024
Cymeradwywyd gan: IGPC		

ATODIAD C

Cyfrifo gwasanaeth blaenorol gyda'r GIG a gwasanaeth Sector Cyhoeddus Cymru (gwasanaeth cyfrifadwy)

Ar gyfer staff newydd, ystyrir bod pob Gwasanaeth blaenorol gyda'r GIG yn wasanaeth cyfrifadwy at ddibenion gwyliau blynyddol, dim ond pan fydd y dystiolaeth angenrheidiol yn cael ei chyflwyno.

O 1 Hydref 2024 bydd y BIP yn cydnabod gwasanaeth parhaus cronodig gan gyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru at ddibenion gwyliau blynyddol. Bydd cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu Protocol GIG Cymru ar gyfer Cydnabod Gwasanaeth Parhaus yn ystyried gwasanaeth parhaus gweithiwr a gafwyd mewn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus arall. Bydd y gweithiwr yn cael yr hawl gwyliau blynyddol sy'n gysylltiedig â hyd gwasanaeth di-dor y gweithiwr a enillwyd mewn cyflogaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Mae gweithwyr yn gyfrifol am ddarparu tystiolaeth (fel slipiau cyflog/contract cyflogaeth neu Drosoglwyddiad Rhyng-Awdurdod CSE) o gyfanswm eu gwasanaeth gyda'r GIG / gwasanaeth sector cyhoeddus Cymru pan gânt eu penodi i'r swydd, i gefnogi eu rheolwr i gyfrifo eu hawl.

Ar ôl iddo gael ei benodi, os yw hawl gweithiwr yn anghywir, yna dylai rheolwyr llinell gysylltu ag adran y gyflogres i'w gywiro cyn gynted â phosib, gyda'r dystiolaeth berthnasol wedi'i hatodi.

Ni fydd gwasanaeth gyda'r banc staffio a gwasanaeth gyda Locwm/Asiantaeth yn cyfrif tuag at wasanaeth cyfrifadwy at ddibenion gwyliau blynyddol.

Os yw gweithiwr yn darparu gwybodaeth anghywir am ei wasanaeth blaenorol a/neu hawl gwyliau, gellid ystyried bod hyn yn gamymddwyn a gellir ei reoli dan Bolisi a Gweithdrefn Ddisgyblu'r BIP a phrosesau gwrth-dwyll mewnol.